


Felinfach — Ystrad Aeron



Portread Bro

Felinfach — Ystrad Aeron

Eich Lle Heddiw

Lleoliad

Mae Felinfach ac Ystrad Aeron wedi eu lleoli yn nyffryn Aeron ar yr A482, 6.5 milltir o Aberaeron a 6.7 milltir o Lanbedr Pont Steffan. Er ei bod yn cael ei chyfrif fel un o'r Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, mae'r ganolfan wedi ei ffurfio o ddau bentref gwahanol ac wrth eu hystyried ar y cyd mae'n cyfrif am fwy na 150 o anheddau. Mae'r pentref hefyd yn lleoliad ffatri prosesu maidd, sydd bellach yn eiddo i Arla Foods Ingredients, sydd â'r bwriad o'i gwneud yn ganolfan gynhyrchu fyd-eang.

Mae'n cynnig amrywiaeth dda o gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys ysgol gynradd (lle i 54 o ddisgyblion), siop gyffredinol / swyddfa bost, tafarn, garej, neuadd bentref, man addoli, caeau chwarae a lle chwarae i blant.



Fffynhonnell: Geograph

Pobl a Chymuned



1,763 o drigolion.
892 o aelwydydd.
0.0% Newid poblogaeth
(2011-2021).



0.9% o gefndir Du,
Asiaidd neu
Leiafrifoedd Ethnig.
99.0% yn Wyn.



9.8% o'r boblogaeth yn 20 i
29 oed.
22.0% yn 45 i 59 oed.
12.1% yn 75 oed a throsodd



74.8% yn berchen
eu cartref.
14.7% yn rhentu'n
breifat.
10.1% yn rhentu'n
gymdeithasol.
65.9% yn aelwydydd
teulu unigol.
7.1% heb ddim car
na fan.



29.0% yn gweithio mewn
gweinyddu cyhoeddus,
addysg ac iechyd.
18.5% yn gweithio mewn
dosbarthu, gwestyau a thai
bwyta.
14.6% yn gweithio mewn
amaethyddiaeth, ynni a
dŵr.




46.6% yn
economaidd
weithgar.
1.7% yn ddi-waith.
46.6% yn
economaidd
anweithgar.
31.0% wedi
ymddeol.



32.0% yn gweithio o
gartref.
61.2% yn gyrru car i'r
gwaith.
1.0% yn dal bws i'r gwaith.
2.1% yn cerdded i'r gwaith.



16.2% heb ddim
cymwysterau.
16.3% â
chymhwyster TGAU.
7.4% â phrentisiaeth.



52.8% yn gallu siarad
Cymraeg.
38.2% heb ddim sgiliau yn
y Gymraeg.



74.7% yn graddio eu
hiechyd fel da neu
dda iawn.
22.8% wedi eu
dosbarthu fel anabl.
13.3% yn darparu
gofal di-dâl.

Teithio

Saif Felinfach ac Ystrad Aeron ar yr A482. Mae ynddynt ddarpariaeth dda o drafnidiaeth gyhoeddus, gyda gwasanaeth bws rheolaidd yn rhedeg rhwng Aberystwyth, Aberaeron a Llanbed.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Bws

Mae gwasanaeth bws y T1 (Gorsaf Fysiau Caerfyrddin – Llanbed – y Llew Du – Llanbed – Gorsaf Fysiau Aberystwyth) yn rhedeg ar hyd yr A482, gyda gwasanaethau bob awr o 06:30yb tan 10:00yp gyda'r nos. Mae'r safleoedd bws y tu allan i'r Neuadd Goffa, yr Ysgol Gynradd a'r groesffordd gyda'r B4342.

Trên

Mae'r orsaf reilffordd agosaf yn Aberystwyth neu Gaerfyrddin, y naill a'r llall tua 22 milltir i ffwrdd.

Dolenni defnyddiol:

<https://bustimes.org/>

<https://www.traveline.cymru/>

Beicio / Cerdded

Llwybrau yn y Dyfodol

Mae gwelliannau i deithio llesol wedi eu cynllunio o fewn coridor yr A482 rhwng Llanbed ac Aberaeron.

Dolenni defnyddiol:

<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/map-or-rhwydwiath-teithio-llesol-llwybrau-presennol-ceredigion-a-llwybraur-dyfodol-2022/>
<https://mapdata.llyw.cymru/maps/active-travel-network-maps/view#/>

Parcio


Does dim meysydd parcio oddi ar y stryd o fewn y gymuned.

Mae gan Theatr Felinfach le pario am ddim i'w ddefnyddwyr. Mae cymysgedd o leoedd parcio ar y stryd o fewn y pentref ac o'i gwmpas, sy'n gysylltiedig â'r neuadd bentref, yr ysgol gynradd a chyfleusterau cymunedol eraill.

Teithio Lleol

Does dim hawliau tramwy o fewn y gymuned ei hun nac yn y cyffiniau agosaf.

Cyfleusterau Lleol

	▪ Siopau cyfleustra ▪ Siop fwyd – cacennau a becws ▪ Swyddfa bost ▪ Siop trin gwallt ▪ Trin traed ▪ Storfa amaethyddol ▪ Tafarn (ar werth) ▪ Gorsaf betrol ▪ Siop fferm a gwledig		▪ Safleoedd bws (T1)
	▪ Neuadd Goffa ▪ Theatr ▪ Eglwys ▪ Capel		▪ Clwb pêl-droed ▪ Campfa (preifat) ▪ Cae chwarae anffurfiol
	▪ Dim		▪ Maes carafanau ▪ Llety gwyliau
	▪ Ysgol gynradd / cylch meithrin		▪ Dim
	Mae adeiladau rhestredig yn ardal Felinfach-Ystrad Aeron yn cynnwys: ▪ Bwthyn Cob yng nghanol y pentref ▪ Carreg filltir ger mynedfa Theatr Felinfach ▪ Carreg filltir yng nghanol y pentref ▪ Eglwys plwyf Sant Mihangel		▪ Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Natur Allt Pen Cnwc. ▪ Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cors Nantcwnlle a SoDdGA Dolau Hafod. ▪ SoDdGA Rhos Cilcennin, Parc Pont-Faen, Allt Crug Garn a Comin Silian. ▪ Mannau gwyrdd yn cynnwys: ○ Cae chwarae anffurfiol ○ Clwb pêl-droed ○ Mynwent ○ Amrywiol hawliau tramwy

Amrywiol Swyddogaethau

Mae nifer o siopau pentref a gwasanaethau sydd wedi eu lleoli ar hyd yr A482. Pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, roedd un o dafarnau'r pentref wedi cau, gydag un arall yn wynebu'r bygythiad o gau.

werth
trin-gwallt
tafarn(gwag
swyddfa-bost
siop-fferm-a-gwledig
siop-gyfleustra
becws-cacennau
siop-amaethyddol
theatr gorsaf-betrol
trin-traed
tafarn(ar

Parth Cyhoeddus

Does dim lle cyn cyhoeddus na lle cyn gwyrdd sy'n teimlo fel canol y lle. Mae palmentydd ar y cyfan yn cyrraedd y safon ond nid ydynt yn parhau y tu hwnt i ymyl y pentref.

Tirwedd

Saif Felinfach ac Ystrad Aeron ar lwyfandir gwastad a amgylchynir ganb porfeydd gwastad, coediog, amgaeedig ac eang.

Mae amrywiadau cynnig mewn cymeriad i'w gweld drwy'r holl ardal, sy'n ymwneud ac uchder a pha mor agored ydynt. Mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar batrymau llystyfiant, gydag ardaloedd mwy cysgodol o ganlyniad â thyfiant mwy cyfoethog o wrychoedd a choed a llwyni collddail. Yn

aml, fodd bynnag, mae ffiniau traddodiadol caeau wedi eu diraddio a naill ai eu disodli neu eu cryfhau gan ffensiau gwifrau.

I'r gorllewin o Felinfach/Ystrad Aeron mae Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Natur Allt Pen Cnwc. I'r dwyrain mae Safleoedd o Diddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Cors Nantcwnlle a Dolau Hafod. I'r gogledd mae SoDdGA Rhos Cilcennin, Parc Pont-Faen a Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Natur Allt Crug Garn. I'r de mae SoDdGA Comin Silian. Prif dirwedd Felinfach/Ystrad Aeron yw glaswelltir niwtral wedi'i wella a'i led-wella, prysgwydd a gwrychoedd. O fewn yr anheddiad ehangach mae hefyd ardaloedd o goetir llydanddail lled-naturiol, glastwelltir corsiog, gwernydd dyffrynnoedd, glaswelltir asid wedi ei led-wella a glaswelltir sych gweundir/asid. Mae hefyd amrywiol gyrsiau dŵr a llynnoedd.

O fewn Felinfach mae cae chwaraeon gerllaw ystad tai Bro Henllys a lle bach i chwarae ond heb offer gerllaw'r ysgol gynradd.


Seilwaith Gwyrdd

- Cae chwarae anffurfiol
- Clwb pêl-droed
- Mynwent

Hunaniaeth

- Gweler adroddiad ar wahân o'r ymgynghoriad ac argraffiadau artistiaid o hunaniaeth.

Dadansoddiad Lle



Dadansoddiad SWOT

Cryfderau	Cyfleoedd
▪ Ar ffordd yr A482 sy'n cysylltu Llanbed ag Aberaeron – cysylltedd da ▪ Niferoedd poblogaeth heb newid ▪ Cyfradd diweithdra is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig ▪ Cymuned Gymraeg gref ▪ Hunaniaeth a ffordd o fyw gwledig amaethyddol ▪ Arla Foods gerllaw ▪ Theatr Felinfach gerllaw'r gymuned ▪ Buddsoddiad mewn ysgol gynradd newydd ▪ Neuadd bentref yn rhychwantu'r ddwy gymuned ▪ Clwb pêl-droed cryf ▪ Cymunedau ar y cyrion yn troi at y pentref ▪ Ar lwybr gwasanaeth bws rheolaidd	▪ Adeilad hen ysgol ▪ Defnyddio'r Neuadd ar gyfer mwy o weithgarwch aml-genhedlaeth
Gwendidau	Bygythiadau
▪ Natur ymestynedig a gwasgarog y gymuned ▪ Traffig yn dod trwy'r pentref – ffordd drwodd ▪ Llai na 25% o'r gymuned yn dosbarthu eu hunain fel anabl ▪ Dim canolfan na sgwâr/lle ffisegol ▪ Pobl yn teithio allan o'r ardal am waith	▪ Newid hinsawdd ▪ Colli gwasanaethau lleol – hyfywedd ▪ Costau byw – heriau symudedd